Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

FFURFLEN GWYBODAETH AM ENILLION CYFARWYDDWR /PERCHENNOG CWMNI/PERSON HUNANGYFLOGEDIG

CYNLLUN BUDD-DAL TAI A GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

This form is available in English from the Civic Centre

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael mewn print bras o'r Ganolfan Ddinesig

Ben Smith
Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau,
Neuadd y Ddinas,
Abertawe SA1 4NR
01792 635353

Rydych wedi dweud ar eich cais budd-dal/gostyngiad eich bod yn hunangyflogedig, neu'n berchennog/gyfarwyddwr cwmni cyfyngedig. Mae angen i mi gael manylion eich incwm hunangyflogedig/incwm y cwmni er mwyn gallu cyfrifo unrhyw hawl i fudd-dal/ostyngiad.

1. Eich Enw a'ch Cyfeiriad Llawn

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Efallai bydd angen i ni gysylltu â chi, bydd yn ein helpu i brosesu'ch hawliad yn gyflymach os ydych yn rhoi'ch rhif ffôn yn ystod y dydd/rhif ffôn symudol yma.

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Rhif ffôn symudol

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG

Dyddiad y derbyniom y ffurflen hon (stamp)

Rhif y cais:

2. Eich Busnes

Mae'n rhaid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob busnes hunangyflogedig rydych yn ei reoli neu bob cwmni cyfyngedig rydych yn berchen arno neu'n gyfarwyddwr ohono.

Enw'r busnes:

Cyfeiriad y busnes:

Rhif ffôn busnes:

Math o fusnes:

Dyddiad dechrau'r busnes:

Dyddiad dechrau'ch blwyddyn ariannol/gyfrifyddu bresennol:

Nifer cyfartalog yr oriau a weithir yr wythnos: awr yr wythnos

A yw eich busnes yn Gwmni Cyfyngedig? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os **ydy**, ewch i Adran 4: Perchnogion/cyfarwyddwyr cwmni

3. Hunangyflogedig - Ynglŷn â'ch Busnes

a) A yw'ch busnes yn bartneriaeth? (Darparwch gytundeb partneriaeth) Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os **ydy**, pa ganran o'r elw/golled sy'n perthyn i chi? %

b) A yw'ch gŵr/gwraig/partner yn bartner busnes i chi? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os **ydy**, pa ganran o'r elw/golled sy'n perthyn iddo/iddi? %

c) Oes pobl eraill ar gyflogres y busnes? Oes ☐ Nac oes ☐

Os **oes**, faint o bobl sydd ar y gyflogres?

Os yw unrhyw un o'r rhain yn aelod o'ch aelwyd, rhowch ei fanylion:

3. Ynglŷn â'ch Busnes (parhad)

ch) Ydych chi wedi cofrestru'ch busnes gyda Cyllid a Thollau EM (CThEM) at ddibenion Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Darparwch brawf, dyma fydd eich cyfeirnod talwr treth unigryw.

Os nad ydych wedi cofrestru, dylech roi gwybod i CThEM eich bod wedi dechrau gweithio ar eich liwt eich hunan. Ar ôl i chi gofrestru, darparwch brawf o hynny.

d) Oes gennych eich ffurflen dreth hunanasesiad ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf? Oes ☐ Nac oes ☐

Os **oes**, dychwelwch gopi gyda'r ffurflen hon. Os **nad oes**, nodwch reswm a'r dyddiad rydych yn ei ddisgwyl:

3a. Ynglŷn ag Incwm eich Busnes

A oes gennych gyfrifon parod (wedi'u harchwilio neu heb eu harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol/gyfrifyddu ddiwethaf? Oes ☐ Nac oes ☐

Os **oes**, dychwelwch gopi o'ch cyfrifon gyda'r ffurflen hon ac ewch yn syth i Adran 3c Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd angen eglurhad arnom.
Os **nad oes**, rhowch y rheswm pam a'r dyddiad rydych yn eu disgwyl:

Os nad oes gennych gyfrifon parod, neu os nad ydych wedi bod yn masnachu am flwyddyn gyfan, llenwch weddill yr adran hon. Rhaid i'r manylion a roddir gennych fod ar gyfer y flwyddyn ariannol/gyfrifyddu ddiwethaf. Os ydych wedi bod yn masnachu am lai na blwyddyn, rhowch fanylion ar gyfer y cyfnod rydych wedi bod yn masnachu. Efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o sut y cyrhaeddoch chi'r ffigurau rydych wedi'u datgan. Os ydych wedi bod yn hunangyflogedig am lai na CHWE wythnos, rhowch **amcangyfrif** o'ch incwm a'ch treuliau tebygol ar gyfer eich tri mis cyntaf o fasnachu.

Cyfnod incwm a threuliau: o / / i / /

Disgrifiwch yr incwm a'r treuliau: gwirioneddol ☐ neu wedi'u hamcangyfrif ☐ (ticiwch)

Incwm - mae'n rhaid i hyn gynnwys y cyfnod cyfan rydych wedi'i ddatgan uchod, nid symiau wythnosol.

Incwm/Gwerthiannau		£
Ynghyd â lwfansau sefydlu/grant swydd neu rywbeth tebyg	Enw'r grant	£
Ynghyd â'r stoc derfynol os ydych wedi bod yn masnachu am fwy na blwyddyn		£
Is-gyfanswm		£
Namyn prynu nwyddau/stoc i'w hailwerthu		£
Namyn y stoc agoriadol os ydych wedi bod yn masnachu am fwy na blwyddyn		£
Elw Gros		**£**

TAW a dalwyd*	£
TAW a ad-dalwyd*	£
Rhif cofrestru TAW	

*__Mae hyn ond yn berthnasol os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW.__ Bydd y gwahaniaeth rhwng y TAW a gewch ar nwyddau a werthir, namyn y TAW a delir ar nwyddau a brynir, yn cael ei ystyried fel incwm.

Os ydych yn hunangyflogedig, mae angen i chi gadw cofnodion dyddiol o waith rydych wedi'i wneud a derbynebau ar gyfer eich treuliau. Bydd angen yr wybodaeth hon arnoch i gwblhau'ch cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar ôl i chi fasnachu am dros flwyddyn, bydd disgwyl i chi ddarparu cyfrifon parod ar gyfer unrhyw adolygiad o'ch budd-dal/gostyngiad yn y dyfodol. Os ydych newydd ddechrau ar hunangyflogaeth ac rydych yn darparu amcan o gyfrifon ar y ffurflen hon, byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 3 mis i gael eich ffigurau gwirioneddol ar gyfer y cyfnod rydych wedi bod yn masnachu.

3b. Treuliau

Dim ond treuliau a ddefnyddir yn gyfan gwbl ac ar gyfer y busnes yn unig y gellir eu caniatáu at ddibenion budd-dal/gostyngiad. Sicrhewch fod y ffigurau a roddir yn cwmpasu'r UN cyfnod rydych wedi'i ddatgan yn 3a. Byddwch yn ofalus os ydych yn talu treuliau'n flynyddol neu'n fisol ond wedi rhoi manylion incwm ar gyfer cyfnod gwahanol. Os oes amheuaeth, cofiwch ddweud wrthym yr union gyfnod a gwmpesir gan draul.

	Cost lawn	Swm at ddefnydd busnes	% at ddibenion busnes	Cyfnod a gwmpesir os yw'n wahanol i 3a
Rhent/morgais ar safle busnes	£	£	%	
Y cyfeiriad y telir rhent ar ei gyfer				
Trethi busnes (nid Treth y Cyngor)	£	£	%	
Gwres a goleuadau busnes	£	£	%	
Trethi dŵr busnes	£	£	%	
Cynnal a chadw mangre fusnes	£	£	%	
Yswiriant busnes	£	£	%	
Beth mae'r yswiriant hwn yn ei gynnwys				
Ffôn/band eang	£	£	%	
Ffôn Symudol	£	£	%	
Glanhau	£	£	%	
Taliadau banc ar gyfrif busnes	£	£	%	
Hysbysebu	£			
Argraffu ac offer swyddfa	£			
Dillad arbennig	£			
Atgyweirio asedau busnes	£			
Tanysgrifiadau busnes	£			
Postio	£			
Taliadau cyfrifyddiaeth	£			
Taliad cyfalaf ar fenthyciad busnes	£			
Taliad llog ar fenthyciad busnes	£			
Rheswm am y benthyciad				

A yw'r yswiriant yn cynnwys y gwaith atgyweirio? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Treuliau eraill (nodwch)	Cost lawn	Swm at ddefnydd busnes	% at ddibenion busnes	Cyfnod a gwmpesir os yw'n wahanol i'r hyn a nodwyd drosodd
	£	£	%	
	£	£	%	
	£	£	%	

Costau staff

Dylai cyflogau gynnwys cyfraniadau gweithwyr at gynlluniau pensiwn ac yswiriant gwladol.

Tyniadau/Cyflog i chi	£	Cyflog a dalwyd i bartner busnes	£
Cyflog a dalwyd i bartner	£	Cyflog a dalwyd i weithwyr eraill	£

3c. Treuliau modur - busnes a phersonol

Dim ond costau moduro ar gyfer rheoli'ch busnes a ganiateir at ddibenion budd-dal/gostyngiad. Os ydych yn defnyddio'ch cerbyd i fynd i'ch gweithle arferol, nid oes modd caniatáu'r treuliau hyn. Fodd bynnag, os ydych yn defnyddio'ch car ar gyfer gweithgarwch busnes, e.e. rydych chi'n arddiwr ac rydych yn mynd i leoedd gwahanol i wneud eich gwaith, mae modd caniatáu'r treuliau hyn. Atebwch y cwestiwn hwn gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i roi amcangyfrif rhesymol o'r ganran a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgarwch busnes.

	Swm	Y cyfnod y mae hyn yn ei gwmpasu		Swm	Y cyfnod y mae hyn yn ei gwmpasu
Tanwydd	£		Treth car	£	
MOT	£		Prydlesu car	£	
Atgyweirio cerbyd	£		Yswiriant cerbyd	£	

Pwy sy'n berchen ar y cerbyd(au)?

A yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion personol yn ogystal â defnydd busnes? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Nodwch pa ganran sy'n ddefnydd busnes %

Ydych chi'n defnyddio unrhyw gar arall at ddibenion personol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, rhowch resymau dros ddefnyddio'ch cerbyd busnes at ddibenion personol.

3ch. Incwm y flwyddyn nesaf

Fel arfer, pan fo'ch cais yn seiliedig ar eich cyfrifon blynyddol diweddaraf, gofynnir i chi ddarparu'ch cyfrifon dim ond pan fydd eich cyfrifon nesaf yn cael eu paratoi. Mae hyn yn golygu y bydd eich incwm o hunangyflogaeth yn cael ei ailasesu'n flynyddol, yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Os yw'ch gwaith o natur dymhorol, neu os ydych yn cael seibiannau yn eich gwaith oherwydd gwyliau, adlewyrchir hyn yn incwm blynyddol eich busnes ac ni chaiff eich hawliad ei ailasesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer cyfnodau incwm isel neu uchel.

A yw'n rhesymol tybio y bydd y ffigurau a roddwyd gennych yn debyg ar gyfer y flwyddyn nesaf? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os **nad ydy**, esboniwch unrhyw wahaniaeth tebygol

Nawr, ewch i Adran 5.

4. Perchnogion/cyfarwyddwyr cwmnïau

Os ydych yn berchennog neu'n gyfarwyddwr cwmni cyfyngedig, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth i ni am sefyllfa ariannol y cwmni a gwybodaeth am arian, cyflogau etc mae'r cwmni'n eu talu i chi. Os yw'r cwmni wedi'i gorffori ac wedi bod yn masnachu am dros flwyddyn, dylech roi cyfrifon llawn i ni ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, gan gynnwys y cyfrifon masnachu, elw a cholled. Os yw'r cwmni wedi bod yn masnachu am lai na blwyddyn, (neu os ydych wedi dechrau'ch ail flwyddyn, ond nid yw'r set gyntaf o gyfrifon parod ar gael eto), bydd angen i chi roi gwybodaeth arall i ni er mwyn i ni fwrw ymlaen â'ch cais budd-dal/gostyngiad. Os oes gennych fuddiant mewn mwy nag un cwmni, llenwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob cwmni. Os oes gennych chi a'ch partner (ystyr 'partner' i ni yw rhywun rydych yn byw gydag ef/hi fel gŵr a gwraig, neu bartner sifil) fudd yn y cwmni, dylech roi manylion am y ddau ohonoch yn y lle a ddarperir.

4a. Ynglŷn â'r cwmni

Beth yw enw'r cwmni?

Beth yw rhif cofrestru'r cwmni?

Pryd gafodd y cwmni ei gorffori? / /

Pryd dechreuodd y cwmni fasnachu? / /

Beth yw enwau cyfarwyddwyr y cwmni?

Beth yw enw ysgrifennydd y cwmni?

Faint o gyfranddaliadau sydd wedi'u rhoi?

Rhowch enwau'r cyfranddalwyr a faint o gyfranddaliadau sydd gan bob un

Rhowch gopi o ddogfen gofrestru'ch cwmni.

Os nad yw'r cwmni'n masnachu ar hyn o bryd:

Beth oedd ei ddyddiad masnachu diwethaf? / /

Pryd rydych chi'n bwriadu ei derfynu? / /

4b. Ynglŷn â'ch buddiant chi/buddiant eich partner yn y cwmni

Cyfranddalwyr	**Chi**	**Eich Partner**
Ydych chi neu'ch partner yn gyfranddaliwr yn y cwmni?	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Os ydych/ydyw, faint o gyfranddaliadau sydd gennych chi neu sydd gan eich partner?		
Ydych chi neu'ch partner wedi derbyn rhandaliadau?	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Os ydych/ydyw, faint gawsoch chi/gafodd eich partner?	£	£
Dyddiad y cawsoch chi/cafodd eich partner y taliad diwethaf	/ /	/ /

Cyfarwyddwyr	**Chi**	**Eich Partner**
Ydych chi neu eich partner yn gyfarwyddwr y cwmni?	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Nodwch faint o dâl, cyflog neu unrhyw daliad arall rydych chi neu'ch partner yn ei gael gan y cwmni.	£	£
Pa mor aml mae hyn yn cael ei dalu?		

Os nad ydych yn cael unrhyw dâl nac yn cymryd arian o'r busnes, defnyddiwch y lle isod i esbonio pryd cawsoch eich talu ddiwethaf, pam nad ydych yn cael eich talu ar hyn o bryd a phryd gallech ddisgwyl cael eich talu.

4c. Ynglŷn â gwerth y cwmni

Yn ogystal ag ystyried faint gallech chi ei gael fel cyfranddaliwr a/neu gyfarwyddwr cwmni, mae angen hefyd i ni ystyried beth allai fod gwerth y cwmni. Mae hyn oherwydd bod gennych chi, fel rhywun sy'n berchen ar gwmni neu ran o gwmni, ased hefyd y mae'n rhaid ei brisio at ddibenion budd-dal/ gostyngiad. Mae'n rhaid bod cyfrifon gan bob cwmni, oni bai ei fod yn newydd ac nid yw'r set gyntaf wedi'i pharatoi.

Pob cwmni

Os ydych yn gwybod, nodwch beth rydych yn ystyried yw gwerth eich cwmni heddiw.

£ Sylwer y gall yr Is-adran Budd-daliadau asesu gwerth gwahanol gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gennych.

A yw'ch cwmni wedi'i brisio? Os ydyw, cadarnhewch y gwerth £ Dyddiad y prisiad / /

Nodwch faint o gyfalaf/asedau a fuddsoddwyd gennych yn y cwmni er mwyn ei sefydlu a'r dyddiad y buddsoddwyd yr arian hwn. Os na wnaethoch fuddsoddi unrhyw arian neu asedau, mae'n rhaid i chi nodi hyn yn y lle a roddir.

Os ydych wedi buddsoddi rhagor o arian yn y cwmni, neu os yw symiau wedi cael eu had-dalu i chi ers i'r busnes ddechrau, rhowch y manylion isod.

Os yw'ch cwmni'n gwneud colled, esboniwch sut mae'r golled yn cael ei hariannu.

Cwmnïau y mae ganddynt gyfrifon

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r set lawn ddiweddaraf o gyfrifon sydd gan y cwmni gyda'r ffurflen hon (Nid oes modd derbyn cyfrifon cryno).

Cadarnhewch pryd rydych yn disgwyl i'ch set nesaf o gyfrifon gael ei pharatoi / /

Cwmnïau nad oes ganddynt eu set gyntaf o gyfrifon

Nodwch pryd rydych yn disgwyl i'r cyfrifon fod yn barod / /

Os ydych wedi bod yn masnachu am lai na 3 mis, rhowch amcangyfrif o incwm a gwariant tebygol eich cwmni, neu

Os ydych wedi bod yn masnachu am fwy na 3 mis, rhowch eich incwm a'ch gwariant gwirioneddol o'r dyddiad y dechreuoch fasnachu hyd heddiw.

Darparwch gyfrifon banc y cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf neu o'r dyddiad y dechreuoch fasnachu hyd heddiw (os yw'n llai na blwyddyn)

Sylwer: Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yr Is-adran Budd-daliadau'n gallu'ch trin yn debyg i un masnachwr hunangyflogedig ac anwybyddu gwerth cyfalaf eich cwmni.
Fodd bynnag, gellir defnyddio'ch cyfrif elw a cholled wedyn i asesu incwm tybiannol os yw'n berthnasol.

5. Cyfraniadau Pensiwn Personol

Ydych chi'n cyfrannu at gynllun pensiwn personol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os **ydych**:

Faint ydych chi'n ei dalu? £

Amlder taliadau, h.y. Wythnosol/Misol etc.

Mae'n rhaid i chi amgáu prawf o'ch taliadau pensiwn

6. Eich Preifatrwydd

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni gyflawni'n hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel rhywbeth sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

7. Datganiad

Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio. Rwy'n datgan fel a ganlyn:

- Mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd y gwn i.
- Os nad oeddwn yn gallu ateb cwestiwn oherwydd fy mod yn aros am wybodaeth, rwyf wedi nodi hyn ar y ffurflen a byddaf yn anfon y manylion atoch ar ôl i mi eu derbyn.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn gwneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth yn y ffurflen hon.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'r cyngor groeswirio'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi gydag is-adrannau eraill y cyngor, y Gwasanaeth Swyddogion Rhent, a chynghorau ac awdurdodau budd-dal eraill.
- Rwy'n deall y gall fod gofyn i mi gyflwyno mwy o wybodaeth bersonol i gefnogi fy nghais, ac y bydd yr wybodaeth hon yn destun yr un rheolau preifatrwydd ag a gynhwysir yn "Eich Preifatrwydd".
- Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn os rwy'n rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn neu'n peidio â rhoi gwybod, yn brydlon neu beidio, am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy Mudd-dal Tai / Gostyngiad Treth y Cyngor.
- Rwy'n deall y bydd rhaid i mi ad-dalu arian os caiff gormod o Fudd-dal Tai/Ostyngiad Treth y Cyngor ei dalu o ganlyniad i newidiadau yn y manylion a roddir yn y ffurflen hon.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth rwyf wedi'u darparu i asesu fy Mudd-dal Tai a/neu fy Ngostyngiad Treth y Cyngor, ac y gellir defnyddio'r manylion hyn ar gyfer unrhyw ostyngiad, gwasanaeth neu fudd-dal lleol y mae'r cyngor yn ei weinyddu. Gall y cyngor roi gwybodaeth i sefydliadau eraill y llywodraeth neu gyrff allanol, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.
- Rwyf wedi darllen a deall "Eich Preifatrwydd"
- Rwyf wedi darllen a deall y datganiad hwn.

Eich llofnod: Dyddiad: / /

Nodiadau ar gyfer Cwsmeriaid Hunangyflogedig

Os ydych yn hunangyflogedig a hoffech hawlio help gyda'ch rhent a/neu dreth y cyngor, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth ddigonol am eich gweithgarwch hunangyflogedig i alluogi asesu'ch incwm o'r hunangyflogaeth.

Fel arfer, bydd yn rhaid i chi roi'ch set ddiweddaraf o gyfrifon - dylai'r rhain nodi'n glir incwm, treuliau ac elw gros a net y busnes ar gyfer y flwyddyn fasnachu ddiwethaf. Mae rhai pobl yn talu cyfrifydd i baratoi eu cyfrifon, ond nid yw hyn yn hanfodol at ddibenion budd-daliadau/gostyngiad ac mae cyfrifon masnachu, elw a cholled sydd wedi'u paratoi gan yr unigolyn hunangyflogedig ei hun yn dderbyniol.

Nodiadau ar gyfer Cwsmeriaid Hunangyflogedig (Parhad)

Rhoddir enghraifft isod o gyfrif elw a cholled masnachu sy'n addas at ddibenion Budd-dal/Gostyngiad.

Os yw'ch busnes wedi bod yn masnachu am o leiaf chwe wythnos, ond llai na blwyddyn, ni fydd gennych gyfrifon go iawn eto. Fodd bynnag, er mwyn llenwi'ch ffurflen dreth, mae'n rhaid eich bod yn cadw cofnodion busnes cywir yn rheolaidd. Felly, dylech nodi'ch incwm a'ch treuliau ar gyfer y cyfnod ers sefydlu'ch busnes hyd yn hyn.

Os ydych wedi bod yn masnachu am lai na 6 wythnos, bydd yn rhaid i chi roi amcangyfrif i ni o'ch incwm a'ch gwariant disgwyliedig. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu gyrru i gartrefi'ch disgyblion i roi gwersi cerdd preifat iddynt, byddwch yn gwybod faint rydych yn mynd i'w godi yr awr ar gyfer eich gwasanaethau a faint o ddisgyblion rydych yn debygol o'u cael a gallai'ch costau gynnwys hysbysebu a phetrol. Trwy roi'r wybodaeth hon i ni, gellir asesu'ch budd-dal/gostyngiad a bydd wedyn yn cael ei adolygu'n gyfnodol trwy gydol y flwyddyn gyntaf nes y gallwch roi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Ar ôl hyn, caiff eich hawliad ei adolygu'n flynyddol tua'r adeg pan fydd yn debygol y bydd y set nesaf o gyfrifon ar gael gennych.

Ar unrhyw adeg, os bydd newid arwyddocaol yn eich gweithgarwch busnes, (er enghraifft rydych chi'n dechrau cyflogi rhywun am fod eich busnes yn ehangu'n gyflym, neu mae'n rhaid i chi leihau'ch gweithgarwch oherwydd dirwasgiad) rhowch wybod i ni gan y gallai fod angen i ni ailasesu'ch hawliad.

Fel arall, gan fod incwm rhywun hunangyflogedig bob amser yn anwadal, bydd eich incwm hunangyflogedig yn cael ei ailasesu unwaith y flwyddyn. Bydd y cyfrifon diweddaraf yn cael eu defnyddio fel amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Trwy ddefnyddio incwm blynyddol, ystyrir unrhyw amrywiadau tymhorol ac efallai na fydd gennych hawl i fudd-dal ychwanegol yn yr wythnosau pan fydd eich incwm yn llai.

Er bod llawer o bethau'n debyg rhwng yr wybodaeth y mae ei hangen i asesu treth incwm person hunangyflogedig a'r wybodaeth i asesu budd-dal/gostyngiad, mae rhai gwahaniaethau pwysig hefyd. Am y rheswm hwn **ni** allwn dderbyn y ffurflen dreth hunanasesiad ar ei phen ei hun fel prawf digonol o incwm at ddibenion budd-dal/gostyngiad.

Enghraifft o gyfrif elw a cholled masnachu

Dechreuodd Mr Blogg fasnachu ar 1.5.11 fel athro cerdd yn gyrru i gartrefi disgyblion i roi gwersi preifat iddynt. Ar hyn o bryd, mae ganddo 6 disgybl yr wythnos ac mae'n eu haddysgu yn ystod y tymor yn unig (h.y. tua 40 wythnos y flwyddyn). Mae'n codi tâl o £20 yr awr.

Mae wedi cyflwyno'r wybodaeth ganlynol gyda'i hawliad budd-dal:

Cyfrifon ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 30.4.12

Incwm (6 disgybl x £20 yr awr x 40 wythnos)	£4,800	
Elw Gros		£4,800
Treuliau		
Tyniadau	£2,600	
Petrol	£800	
Hysbysebion	£100	
Cerddoriaeth	£250	
Dillad	£50	
Defnyddio'r cartref fel swyddfa	£520	
Ffôn symudol (ac eithrio defnydd personol)	£60	
Ffôn cartref (ac eithrio defnydd personol)	£120	
		£4,500
Elw Net		£300

Mae Mr Blogg yn cyflwyno'r wybodaeth hon i'r swyddfa fudd-daliadau. Yn unol â rheoliadau budd-daliadau, nid yw'r tyniadau'n draul y gellir ei chaniatáu ac nid yw defnyddio'r cartref fel swyddfa'n draul a ddefnyddir yn gyfan gwbl ac ar gyfer ei fusnes yn unig ac felly nid oes modd ei ganiatáu. Fodd bynnag, mae modd caniatáu ei betrol am ei fod yn gyrru i leoedd gwahanol i roi ei wersi ac ystyrir bod yr holl dreuliau eraill yn rhesymol.

Mae hyn yn golygu bod yr Is-adran Budd-daliadau'n asesu ei incwm blynyddol fel £3,420. Mae rhannu hyn â 52 o wythnosau'n golygu mai ei incwm wythnosol yw £65.77. Defnyddir hwn i asesu ei fudd-dal ar gyfer y flwyddyn nesaf. Er nad yw'n addysgu yn ystod y gwyliau ysgol, mae hyn wedi'i ystyried yn yr asesiad ac nid oes angen ailasesu ei fudd-dal/ostyngiad gan ddibynnu ar y flwyddyn ysgol.